OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 360 (Cy. 42)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*28 Chwefror 2013*
Yn dod i rym - -	*25 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2013, daw i rym ar 25 Mawrth 2013 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr "y dibenion statudol" ("*the statutory purposes*") yw dibenion y rheoliadau sy'n ymwneud â gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig ffyrdd o dan adran 72(4)(a) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr "y gofynion a bennir" ("*the specified requirements*") yw'r gofynion a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA state*") yw gwladwriaeth o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd; ac

ystyr "tramgwydd traffig ffyrdd" ("*road traffic contravention*") yw un neu ragor o'r canlynol:

(a) tramgwydd parcio fel a ddisgrifir yn Rhan 1, paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004;

(b) tramgwydd lôn fysiau fel a ddisgrifir yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004; neu

(c) tramgwydd traffig sy'n symud fel a ddisgrifir yn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Dyfeisiadau a gymeradwyir

2.—(1) Mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir at y dibenion statudol os yw o fath sydd wedi ei ardystio gan Weinidogion Cymru fel un sy'n bodloni'r gofynion a bennir.

(2) Bernir bod dyfais yn bodloni'r gofynion a bennir pan fo tystiolaeth wedi'i darparu sy'n bodloni Gweinidogion Cymru bod awdurdod cymwys mewn Gwladwriaeth AEE wedi canfod bod y ddyfais o dan sylw yn un sy'n bodloni gofynion safon AEE sy'n gofyn am lefel o berfformiad sy'n cyfateb i'r lefel o berfformiad sy'n ofynnol gan y gofynion a bennir.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "safon AEE" ("EEA standard") yw—

(a) safon neu god ymarfer corff safonau gwladol neu gorff cyfatebol perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE;

(b) unrhyw safon ryngwladol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon neu god ymarfer gan unrhyw Wladwriaeth AEE; neu

(c) manyleb dechnegol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon gan awdurdod cyhoeddus perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE.

Dirymu

3. Drwy hyn mae Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008(**3**) wedi ei ddirymu.

Carl Sargeant
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru

26 Chwefror 2013

(**3**) O.S. 2008/1215 (Cy.123).